



**Astudiaeth Achos Pori Cadwraeth 3**  
**Coed y Gribin, Abergwynant**






## Astudiaeth Achos Pori Cadwraethol 3: Coed y Gribin

### Cyflwyniad

Mae Coed y Gribin, Abergwynant yn warchodfa RSPB o ychydig dros 22 hectar, i gyd yn goetir llydanddail. Mae'r safle yn ffurfio rhan o Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirionnydd, a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Coedydd Abergwynant. Ar y warchodfa, 91A0 Hen goedwigoedd derw mes digoes gydag Ilex a Blechnum yn Ynysoedd Prydain ("Coedwig Law Geltaidd") yw'r math o gynefin coetir yn bennaf, ac mae'n bwysig i redyn, bryoffytau, cennau, ac adar y coetir fel y gwybedog brith a thelor y coed. RSPB, Y Gribin yn ei gyfanrwydd yw un o'r safleoedd gorau yng Nghymru ar gyfer diddordeb planhigion is: canfu arolygon a gynhaliwyd yn 2022 fod 167 o rywogaethau o lysiau'r afu a mwsoglau a 169 o rywogaethau o gennau, gan gynnwys nifer o rywogaethau prin iawn neu rai o dan fygythiad sydd ar restr goch Cymru neu'r DU. Mae'r safle hefyd yn cael ei ddefnyddio gan y gylfinbraff, ac mae rhan o gymuned y gylfinbraff yn ardal Mawddach yn arwyddocaol yn genedlaethol.

### Hanes a Rheolaeth Blaenorol

Bu Coed Y Gribin, Abergwynant yn warchodfa RSPB ers 1983. Ychydig a wyddys am ei rheolaeth cyn yr amser hwn, ond dengys map AO 1887 fod Coed y Gribin yn goetir bryd hynny, ac yn edrych yn debyg iawn i heddiw o ran arwynebedd a maint.



*Ffigur 1. Map o Goed y Gribin yn dangos ardal bori wedi'i hamlinellu mewn glas.*

Yn y blynyddoedd diwethaf, ychydig iawn o bori a fu ar y safle; mae rhywfaint o bori gyda defaid wedi digwydd, ond nid oedd hyn yn ddelfrydol o safbwynt rheolaeth cadwraeth y safle. Mewn rhai ardaloedd, mae hyn wedi arwain at dyfiant sylweddol o eiddew a mieri, sy'n cael effaith negyddol ar lawer o



rywogaethau planhigion is trwy atal golau rhag cyrraedd llawr y goedwig. Mae'n well gan lawer o gennau rannau isaf boncyffion coed, felly mae eiddew ifanc yn fygythiad arbennig i'r rhywogaethau hyn. Yn yr un modd, mae toreth o goed sy'n aildyfu yn achosi gormod o gysgod, ac argymhellodd Orange (2014) gyflwyno pori i geisio newid hyn: "Y gobaith yw y gellir gwrthdroi peth cynnydd diweddar mewn cysgod, trwy gael gwared ar lasbrennau a ffawydd ...Mae pori i atal aildyfiant yn rhan hanfodol o hyn" (t9).

Un her yw bod y gylfinbraff hefyd yn defnyddio Abergwynant, ac mae ei hanghenion yn gwrthdaro â rhai'r planhigion is. Mae cryn dipyn o ffawydd ar y safle hwn nad ydynt yn frodorol yma, ac argymhellodd Orange (2014) y dylid cael gwared ar ffawydd gan y gall gael effaith negyddol ar y cymunedau prin o gennau. Mae hyn oherwydd bod coed ffawydd yn hadu'n doreithiog ac yn gallu trechu'r coed sy'n cynnal y cennau cefnforol a chreu cysgod trwchus; hefyd nid yw eu dail yn pydru mor rhwydd â choed llydanddail brodorol eraill, fel y gall y gwasarn dail fygu cennau a bryoffytau sy'n tyfu ar lawr y goedwig. Fodd bynnag, mae Abergwynant hefyd yn safle bridio hysbys ar gyfer y gylfinbraff, sy'n gwledda ar y cnau ffawydd a gynhyrchir gan goed aeddfed ddiwedd yr haf/hydref. Mae angen cyfaddawd felly trwy ganiatáu i rai ardaloedd o ffawydd barhau, ond eu rheoli i atal lledaeniad pellach. Y gobaith yw y gall pori greu'r amodau hyn. Dylai'r gwartheg fwyta llawer o'r glasbrennau ffawydd ifanc, a dylai pori dwysedd isel greu strwythur agored yn bennaf gyda lefel golau priodol i gasgliadau o rywogaethau adar coetir â blaenoriaeth a phlanhigion is, tra'n esgeuluso rhai ardaloedd fel eu bod yn parhau'n drwchus a llawn prysgwydd.

## Y gofynion cychwynnol

Mae Coed y Gribin yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac felly roedd angen caniatâd ar gyfer unrhyw waith gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Roedd Cynllun Rheoli RSPB â chaniatâd yn bodoli, gyda chaniatâd wedi'i roi yn 2016 i bori gydag uchafswm o 20 dafad neu 6 merlen, neu gyfuniad o'r ddau, rhwng Ebrill a Hydref yn unig. Mae hyn yn gweithio allan fel 0.18 LSU yr hectar y flwyddyn. Fodd bynnag, teimlwyd y byddai gwartheg yn well gan y byddent yn fwy tebygol o gael effaith ar fieri mwy trwchus neu lasbrennau mwy, a sathru rhedyn. Felly gwnaethom gais am ddiweddariad i'r caniatâd SoDdGA, gan ofyn am hyd at 0.4 LSU rhwng mis Ebrill a mis Hydref (sy'n gweithio allan fel 9 o wartheg), ond gan nad oeddem wedi dod o hyd i borwr eto, gwnaethom gadw'r math o anifail yn agored (gwartheg, merlod, defaid, neu eifr). Roeddem yn bwriadu dechrau gyda dwysedd stocio llai a chynyddu niferoedd pe na baent yn cael yr effaith ddymunol. Caniatodd CNC y cais gyda'r amod mai'r uchafswm pori ar gyfer Y Gribin fyddai 0.16 LSU/ha/bl (5 o wartheg am y 7 mis) gyda monitro rheolaidd i sicrhau nad oedd y pori'n cael effaith negyddol ar y llystyfiant. Roeddent yn pryderu "y dylai pori fod ar lefel lle mae digon o aildyfiant naturiol o goed a llwyni brodorol lleol i gynnal canopi'r coetir a darparu strwythur oedran amrywiol." Fe wnaethant hefyd gymhwyso amodau ynghylch trin stoc â gwrthlyngryddion fel Ivermectins (mae angen trin stoc o leiaf 2-3 wythnos cyn cyrraedd y safle) a phorthiant atodol (ac eithrio darparu llyfiadau mwynol), i leihau'r risg o gyfoethogi a lledaenu rhywogaethau o blanhigion amaethyddol ar draul fflora brodorol.

Llwyddodd staff Prosiect LIFE Coedwig Law Geltaidd i ddod o hyd i borwr a fyddai'n fodlon pori'r safle gyda gwartheg o fis Ebrill i fis Hydref. Roedd ganddo wartheg Dexter bach a gwydn, a chredir eu bod yn ddelfrydol ar gyfer y safle. Roedd angen inni hefyd sicrhau cytundeb gan y ffermwr cyfagos y gellid dod ag unrhyw dda byw i mewn ar draws ei gae.



Gosodwyd seilwaith ffensio yn 2019/20. Roedd hyn yn cynnwys 2 giât newydd a rhywfaint o ffens neidio ar hyd pen wal. Roedd yna hefyd hen strwythur cored ar yr afon yr oedd angen ei ffensio gan y gallai achosi perygl i'r gwartheg. Gosodwyd giât newydd hunan-gau i gerddwyr ar y llwybr cyhoeddus, a ddarparwyd gan y cyngor, gyda chaniatâd y swyddog HTC.

## Monitro

Roedd holl safleoedd y prosiect yn destun Monitro Safonau Cyffredin (CSM), cyfrifiad adar cyffredin (CBC) ac arolygon planhigion is ar ddechrau'r prosiect, a bydd hyn yn cael ei ailadrodd ar ddiwedd y prosiect. Yn ogystal, rydym yn defnyddio ffotograffiaeth pwynt sefydlog ar safleoedd o leiaf ddwywaith y flwyddyn, sy'n ein galluogi i greu darlun manylach o newidiadau dros amser.

## Cyflwyno pori

Cyn dechrau pori, bu rhywfaint o waith teneuo celyn ar y safle i gael gwared ar hyd at 70% o orchudd celyn, ond ni chynhaliwyd unrhyw waith teneuo arall. Yn 2021, cyflwynwyd chwe buwch Dexter gyda lloi wrth eu traed. Fodd bynnag, am wahanol resymau, ni fu'r gwartheg yn pori am dymor llawn yng Nghoed y Gribin eto. Yn y flwyddyn gyntaf, ni chafwyd cytundeb gyda'r porwr tan yr haf, ac felly ni chyflwynwyd y gwartheg tan fis Gorffennaf. Y flwyddyn ganlynol (2022), bu'n rhaid symud y gwartheg yng nghanol mis Mehefin, gan fod rhywfaint o waith coed angenrheidiol yn digwydd ar y safle a oedd yn golygu bod angen tynnu'r ffens; ac yn 2023, cafodd un o'r buchod enedigaeth farw cyn cael ei rhoi yn y goedwig ac roedd yn methu â setlo, felly aeth y porwr â'r holl anifeiliaid i'w fferm lle gallai gadw llygad arnynt. Mae hyn yn golygu mai dim ond am 3-4 mis y maent wedi bod ar y safle mewn unrhyw flwyddyn.

## Crynodeb o'r canfyddiadau hyd yn hyn

Er gwaethaf yr uchod, mae'r gwartheg wedi cael effaith fawr yn ystod y cyfnod hwn, gan leihau maint a dwysedd y rhedyn mewn sawl man a lleihau lefelau mieri yn sylweddol. Maent hefyd wedi cadw'r celyn dan reolaeth (gweler atodiad 2). Mae staff wedi sylwi ei bod yn ymddangos bod yn well gan y gwartheg rai ardaloedd nag eraill, a phob blwyddyn mae ganddynt yr un hoff leoedd (o bosibl oherwydd bod yr ardaloedd hyn yn fwy heulog) lle maent yn treulio llawer o amser. Yn yr ardaloedd hyn, maent yn sathru ar lystyfiant, yn pori ac yn gwthio glasbrennau drosodd, ac yn creu ardal agored. Mewn cyferbyniad, mae rhannau eraill o'r goedwig lle nad ydynt yn treulio llawer o amser, felly maent yn creu clytwaith o wahanol amodau o fewn y goedwig. Mae effeithiau amlwg eraill yn cynnwys y ffaith eu bod yn tueddu i falu pren marw gan achosi iddo bydru'n gyflymach; ac, yn ddiddorol, mae'r gwartheg wedi dod o hyd i ddŵr ar y safle. Mewn ardal wlyb, mae eu sathru wedi creu pwll iddynt yfed, mewn ffynnon nad oedd yn hysbys o'r blaen (ar y dde).

Mae'r gwartheg hefyd wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar yr eiddew ar y safle. Yn 2022, canfu arolwg gan D. Lamacraft fod eiddew goresgynnol ifanc, ym mhob rhan o'r goedwig, yn ymlusgo i fyny rhannau isaf boncyffion y coed sy'n "broblem o ran cennau epiffytig, yn wahanol i eiddew corun aeddfed, ac yn aml



*Llun 1. Pwll a grëwyd gan wartheg yn sathru.*

mae'n ymateb i bwysau pori wedi'i leihau neu wedi'i ddileu" (t35). Mae'r gwartheg yn mwynhau eiddew ac wedi mynd i'r afael ag ef yn frwdfrydig, gyda'r rhan fwyaf o goed bellach yn dangos llinell bori glir.

Canfu arolwg Lamacraft fod rhan uchaf y safle yn drwch o adfywiad, a dywedodd fod "angen mynd i'r afael â'r adfywiad coed toreithiog o amgylch pen Y Gribin er mwyn osgoi effeithiau negyddol parhaus ar goed aeddfed, cynefinoedd pren marw sy'n sefyll a'u diddordeb mewn cen" (ibid t43). Mae'n annhebygol y gallai'r drefn bori bresennol wella'r broblem hon, yn rhannol oherwydd bod gan Goed y Gribin hefyd rai darnau hynod o serth y mae'r gwartheg yn eu hosgoi, fel na ellir pori tua 2 ha o'r arwynebedd, ond hefyd am fod y tyfiant adfywio yn yr ardal hon yn rhy fawr i'r gwartheg eu gwthio drosodd.

Mater arall yw bod sawl pinwydden Douglas aeddfed ar y safle sydd wedi bod yn hadu'n helaeth o amgylch y goedwig. Mae'r pinwydd mawr hyn yn cynnal rhywfaint o ddi-ddordeb cen da, sy'n golygu nad yw'n ddymunol eu torri i gael gwared ar ffynhonnell yr had. Roeddem yn gobeithio y byddai'r gwartheg yn bwyta'r eginblanhigion ac yn ein helpu i atal y broblem hon. Fodd bynnag, hyd yma, er bod y gwartheg yn amlwg yn bwyta'r Douglas (gweler y llun ar y dde, yn dangos coeden wedi'i hanner bwyta a ddiogelir yn rhannol gan ffens), bu eu heffaith ar draws y safle yn gyfyngedig.



O safbwynt y porwr, mae'n hapus iawn gyda'r ffordd mae ei wartheg wedi gwneud tra yn y coetir; dywed eu bod wedi magu pwysau a chyflwr a'u bod yn ymddangos yn ffynnu. Sylwodd, mewn tywydd cynnes, gwlyb, y gall pryfed fod yn dipyn o broblem oherwydd ei bod mor gysgodol o dan y coed, ond ar wahân i hyn, mae'n dweud ei fod wedi cael profiad mor gadarnhaol fel ei fod wedi mynegi awydd i bori safleoedd coetir eraill i ni, pe baent ar gael.

*Llun 2. Pinwydden Douglas wedi ei bwyta gan wartheg.*



*Llun 3. Coed y Gribin, yn dangos effeithiau'r gwartheg: eiddew wedi'i dynnu i'r llinell bori, a glasbrennau llai wedi'u gwthio drosodd a'u pori.*

## Cynlluniau i'r dyfodol

Yn gyffredinol, canfu Lamacraft (2022) nad yw'r gwartheg wedi cael yr effaith ddymunol ar aildyfiant helaeth coed yn Y Gribin. Mae'n dweud "mae Coed y Gribin ... yn mynd heibio trobwynt, yn sicr mewn rhai ardaloedd" o ran dioddef drwy danburi, ac "nad oedd llawer o dystiolaeth o unrhyw effeithiau (o'r pori) ac eithrio efallai yn rhannau isaf, gogleddol yr adran". Y prif fater a ganfu oedd tresmasu ar aildyfiant coed, yn enwedig ffawydd, a oedd yn "cael effaith bendant (andwyol) ar y diddordeb cen ac os caniateir iddo barhau heb ei reoli, mae'n debygol y gwelir colli rhai rhywogaethau allweddol". Ar adeg ei arolwg, dim ond un tymor yr oedd y gwartheg wedi'i gael yno sydd efallai'n cyfrif am rywfaif o'r diffyg effaith y sylwedd arno. Fodd bynnag, ar asesiad diweddar, er y gwelwyd bod yr eiddew a'r mieri wedi lleihau'n sylweddol, nodwyd bod problem o hyd gydag aildyfiant coed yn ymledu. Er bod y gwartheg yn amlwg yn gwthio drosodd rai glasbrennau a'u pori, mae'n debyg bod eraill bellach yn rhy fawr i'r gwartheg eu gwthio, ac efallai y bydd angen rhagor o waith teneuo.

Efallai y byddai'n ddoeth hefyd newid y drefn bori os ydym am dargedu glasbrennau. Gallai pori yn y gaeaf fod yn fwy effeithiol, gan fod llai o borthiant amgen ar yr adeg honno o'r flwyddyn, gan wneud y gwartheg



yn fwy tebygol o bori coed llai, yn enwedig y pinwydd Douglas bytholwyrdd. Hefyd, fel gyda safleoedd eraill, mae'n ymddangos bod gwartheg yn arbennig o hoff o redyn, a gallai newid i bori yn y gaeaf, hyd yn oed pori dros dro, fod o fudd i redyn a fflora eraill. Felly'r cynllun ar gyfer pori'r flwyddyn nesaf (2024) os cawn ganiatâd SoDdGA, yw cadw gwartheg allan o'r goedwig tan fis Hydref, ac yna eu cadw ar y safle tan y mis Mawrth canlynol. Rydym yn bwriadu monitro eu heffaith yn agos i weld a yw'r sefyllfa'n gwella.



*Llun 4. Gwartheg Dexter yn pori yng Nghoed y Gribin.*

## Cyfeiriadau

D.M. Lamacraft (2022) Condition Assessment of SSSI Lichen Feature and Lichen Survey, Coedydd Abergwynant RSPB, Meirionnydd. Adroddiad heb ei gyhoeddi i RSPB Cymru.

Orange, A. (2014) Lichen Survey, Management and Monitoring in Three Mawddach Oakwoods (Meirionnydd Oakwoods IPA). Adroddiad heb ei gyhoeddi i Plantlife.



## Atodiad: ffoto-fonitro ar gyfer Coed y Gribin.

Tynnwyd y golofn chwith isod ym mis Awst 2019, a'r golofn dde ym mis Awst 2023. Mae lluniau'n dangos yn glir bod gwartheg wedi cael effeithiau llawer mwy mewn rhai ardaloedd nag eraill. Mae'r llun olaf yn dangos mai ychydig iawn o effaith a gafodd y gwartheg hyd yma ar gonwydd ymlledol.







COEDWIGOEDD GLAW CELTAIDD CYMRU  
CELTIC RAINFORESTS WALES





COEDWIGOEDD GLAW CELTAIDD CYMRU  
CELTIC RAINFORESTS WALES



Mae'r prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd Cymru wedi derbyn cyllid gan Raglen LIFE yr Undeb Ewropeaidd.